



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

**Cofnodion Heb eu Cadarnhau
Y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd
Cyfarfod Cyhoeddus 8 Mawrth 2023, 09:30
Drwy Microsoft Teams**

Yn Bresennol:		
Sian Griffiths	(SG)	Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd Cyhoeddus)
Diane Crone	(DC)	Cyfarwyddwyr Anweithredol (Prifysgol)
Nick Elliott	(NE)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Data a Chyfleusterau Digidol)
Hefyd yn Bresennol:		
Sumina Azam	(SA)	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Polisi ac Iechyd Rhyngwladol/Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd
Iain Bell	(IB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd Cyhoeddus
Fliss Bennee	(FB)	Pennaeth Data, Y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth
Liz Blayney	(LB)	Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Alisha Davies	(AD)	Pennaeth Ymchwil a Datblygu
Rebecca Hill	(RH)	Uwch Arbenigwyr Iechyd Cyhoeddus
Angela Jones	(AJ)	Cyfarwyddwr Dros Dro Iechyd a Llesiant
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol (Ymunodd am 09:40)
Elen De Lacy	(EDL)	Rheolwr Ymchwil a Datblygu Iechyd Cyhoeddus
Kirsty Little	(KL)	Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus, Deallusrwydd Iechyd, Y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth
Louisa Nolan	(LN)	Pennaeth Gwyddor Data, Y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth

Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig, Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
---------------	------	--

Ymddiheuriadau

Jan Williams	(JW)	Cadeirydd
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Rob Bailey	(RB)	Cynrychiolydd Staff
Rhiannon Beaumont-Wood	(RBW)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Ysgrifenyddiaeth

Andrew Morton	(AM)	Swyddog Cymorth y Bwrdd
---------------	------	-------------------------

Dechreuodd y cyfarfod am 09:30

KRIC 1/2023.03.08 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

Agorodd SG y cyfarfod a chroesawu pawb a oedd yn bresennol.

Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gefnogi cywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl cytuno ar y cofnodion yn y cyfarfod dilynol ym mis Mehefin 2023.

Nododd y Pwyllgor yr ymddiheuriadau.

KRIC 2/2023.03.08 Datgan Buddiannau

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

KRIC 3/2023.03.08 Cofnodion, Cofnod o Gamau Gweithredu a Materion yn Codi

Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2022.

Ystyriodd y Pwyllgor y ddau gam gweithredu agored yn y cofnod o gamau gweithredu:

- **KRIC 2022/07: Datblygu gwaith ymchwil academiaidd ar iechyd cyhoeddus yng Nghymru:**
 - Dywedodd IB fod Eugenia Cronin a Kieron Walsh wedi'u gwahodd i ymuno â Phwyllgor llywio i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer ymchwil academiaidd i iechyd cyhoeddus yng Nghymru.
- **KRIC 2022/04: Datblygu cysylltiadau gyda'r Brifysgol Agored ymhellach:**
 - Dywedodd IB fod y Brifysgol Agored wedi datblygu pyrth ar gyfer cyrsiau Iechyd Cyhoeddus, a bod y Sefydliad wedi cael cyfle i'w hadolygu. Cadarnhaodd IB hefyd ei fod ar fin cyfarfod â'r

Brifysgol Agored ynghylch partneriaethau posibl ar feysydd ymchwil.

Byddai'r Pwyllgor yn ystyried diweddariadau pellach ar gamau gweithredu agored KRIC 2022/04 a KRIC 2022/07 yn y cyfarfod nesaf

Camau Gweithredu: IB

Cymeradwyodd y Pwyllgor y penderfyniad i gau'r tri cham gweithredu a gwblhawyd ar y cofnod o gamau gweithredu.

KRIC 4/2023.03.08

Sesiwn Graffu Fanwl: Cydraddoldeb ac Ymchwil

Fe wnaeth IB Gyflwyniad ar Anghydraddoldebau Iechyd, gan nodi'r prif flaenoriaethau ar gyfer deall maint yr anghydraddoldebau a maint ac ansawdd y data sydd gennym. Byddai'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i gefnogi'r Sefydliad i gytuno ar gamau i'w cymryd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Fe wnaeth IB, SA a RH sylwadau ar:

- Meysydd lle roedd tystiolaeth a data eisoes wedi'u defnyddio i ddangos y costau yn sgil anghydraddoldebau iechyd;
- Menter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru (WHESRI), a gasglodd y data, polisïau a ffynonellau tystiolaeth ynghylch anghydraddoldebau iechyd ynghyd a chydbwyso'r data â thystiolaeth o ymyriadau, buddsoddiadau a pholisïau er mwyn lleihau bylchau mewn anghydraddoldebau;
- Gallu'r Sefydliad i ddefnyddio ei offer a'i ymchwilwyr i ddarparu adroddiadau sy'n helpu i gynorthwyo penderfyniadau Llywodraeth Cymru;
- Manylodd MK ar yr anawsterau canfyddedig o fewn Gwasanaethau Sgrinio, gan dynnu sylw at ffurfio Grŵp Tegwch gyda chynrychiolaeth ar draws y Sefydliad, a datblygu Strategaeth a Chynllun Gweithredu ar Degwch. Byddai Adroddiad yn cael ei greu gan yr Is-adran Sgrinio ar Anghydraddoldebau yn flynyddol gan nodi anghydraddoldebau fesul rhaglen a fesul Bwrdd Iechyd;
- Gorffennodd IB y sesiwn fanwl drwy gydnabod bod llawer iawn o waith i'w wneud na ellid ei wneud yn fewnol, ac y byddai angen cymorth ac adnoddau ychwanegol.

Aeth y Pwyllgor ati i drafod:

- Cynigion manwl ar gyfer Gwasanaethau Sgrinio a'r Rhaglen Cynhwysiant Iechyd ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy;
- Y nod tymor hwy o gasglu data cywir, gan nodi'r cysylltiadau ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru a sicrhau bod data'n cael eu cofnodi'n gywir drwy wasanaethau cofrestru neu feddygon teulu;
- Tlodi data – roedd y cynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau ar-lein gan Awdurdodau Iechyd yn ystod y pandemig Covid-19 yn parhau i helpu i sicrhau mynediad teg a chyfartal i wasanaethau iechyd;

- Cynhwysiant digidol ac iechyd. Roedd angen gwelliannau pellach i ap y GIG i hwyluso'r ffordd y caiff data eu cofnodi yn y lle cyntaf. Byddai hyn yn sicrhau data mwy cywir a dibynadwy;
- Gwelwyd bod defnyddio'r slogan "Dywedwch Wrthym Unwaith" yn agwedd bwysig ar y ddarpariaeth gofal iechyd yn gyffredinol. Ar bob pwynt defnydd, dylai'r GIG rannu data cywir a chyfredol i ddarparu'r canlyniadau gorau i gleifion;
- Defnyddio data cynhwysiant/allgau yn gywir a'r angen i egluro pwrpas casglu data i gleifion.
- Rhaid sicrhau bod platfformau digidol ar gael i'w defnyddio yn rhad ac am ddim ar gyfer pob agwedd ar iechyd er mwyn sicrhau tegwch i bawb.
- Yr angen i sicrhau bod darpariaethau nad ydynt yn rhai digidol ar waith ar gyfer y rhai sy'n dewis peidio â chael mynediad at ddarpariaeth gofal iechyd drwy blatfformau digidol.

Dywedodd AD wrth y Pwyllgor fod Sefydliad Iechyd y Byd wedi comisiynu Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynnal adolygiad cwmpasu o anghydraddoldebau digidol a defnydd yn y dyfodol mewn lleoliadau gofal iechyd, a chytunodd i gyflwyno'r canfyddiadau mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Camau Gweithredu: AD/LB

Cytunodd y Pwyllgor i ddarparu adroddiad i'r Bwrdd ar yr astudiaeth fanwl o Anghydraddoldebau Iechyd fel y trafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor, er y nodwyd bod angen astudiaeth bellach ym meysydd cydweithio, cydlyniant a chysylltedd ar draws y Sefydliad.

Gofynnodd y Pwyllgor i eitemau ar gynhwysiant, sgrinio a gwaith byd-eang y Bwrdd gael eu cynnwys ar agendâu Pwyllgorau yn y dyfodol. Cytunodd IB i gyflwyno cynllun gwaith i'r cyfarfod ym mis Mehefin a oedd yn cwmpasu'r materion hyn, gan nodi sut y gellid mynd i'r afael â hwy yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy a thynnu sylw at bartneriaid i gyflawni'r gwaith.

Camau Gweithredu: IB

KRIC 5/2023.03.08

Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso

KRIC 5.1/2023.03.08

Diweddariad ar y Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso

Fe waneth IB gyflwyniad ar y Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso, gan amlygu'r pum egwyddor greiddiol: bod yn ddylanwadol; yn gydgysylltiedig; yn agored yn ddiodyn; yn gynhwysol ac yn amlddisgyblaethol.

Dywedodd fod EDL wedi cyfarfod ag arweinwyr pob un o'r chwe thema y cytunwyd arnynt yn y Strategaeth Hirdymor er mwyn pennu unrhyw fylchau mewn tystiolaeth o fewn y meysydd. Byddai EDL wedyn yn trafod gyda rhanddeiliaid perthnasol. Rhagwelwyd y byddai'r strategaeth derfynol yn cael ei chyflwyno i'w chymeradwyo yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Cytunodd IB i grynhoi gwaith James Lind a ddefnyddiwyd i nodi'r bylchau yn y dystiolaeth a'i anfon ymlaen at y Pwyllgor.

Camau Gweithredu: IB

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- Nodi yr ymgynghorir â'r sector preifat yn y dyfodol, a gofyn a ellid ystyried ymgysylltu â phartneriaethau gwaith presennol megis awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ystod y cam cwmpasu;
- Cydnabod gwaith Llywodraeth Cymru ar ddatblygu fframwaith Ymchwil a Datblygu ar gyfer y GIG, sydd i'w gymeradwyo ym mis Ebrill. Roedd IB ac EDL wedi mynychu cyfarfodydd adborth i sicrhau cyfatebiaeth â'r fframwaith.

Gofynnodd SG a ellid rhoi gwybod i'r Bwrdd am ddatblygiad parhaus strategaeth ar gyfer ymchwil a gwerthuso, gan nodi'r bwriad i'r Pwyllgor gymeradwyo'r strategaeth yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor a darparu argymhelliad i'r Bwrdd ei chymeradwyo wedi hynny.

Camau Gweithredu: IB

KRIC 5.2/2023.03.08

Cynnig Iechyd Cyhoeddus Cymru i Fonitro Effaith

Cyflwynodd KL gynnig Iechyd Cyhoeddus Cymru i Fonitro Effaith, gan sôn am yr angen i ddatblygu system lle y gellid monitro effaith gwaith y Sefydliad yn effeithiol yn y tymor byr a'r tymor hwy. Ni thybiwyd bod modelau a ddefnyddiwyd mewn manau eraill yn cyflawni'r canlyniadau gofynnol gan y Sefydliad, a barnwyd bod y cynnig hwn yn ddull mwy pragmatig.

Cynigiwyd dull pedair haen:

- Cwestiwn yn gofyn y rheswm dros ymweld â'r wefan, yr hyn yr oeddent yn chwilio amdano ac a oeddent wedi dod o hyd i hynny;
- Arolwg blynyddol (yn cyd-fynd â llawer o sefydliadau eraill);
- Cysylltu â rhanddeiliaid/gwneuthurwyr polisi allweddol;
- Cyfweliad personol gyda'r sawl sy'n gwneud cais am wybodaeth benodol.

Cynigiwyd y dylid defnyddio'r dull yma ar draws yr ystod lawn o ddata, gwybodaeth ac ymchwil o fewn y Sefydliad – lle y cynhyrchwyd gwybodaeth i'w defnyddio/lledaenu.

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- Ofyn a ellid datblygu system i fesur dylanwad y Sefydliad. Dywedodd KL y byddai elfennau'r arolwg blynyddol a'r cyfweliad personol yn y gwaith yn cynnwys cwestiynau o ran pwy oedd yn gofyn am y wybodaeth; cydnabuwyd bod naidlenni o fewn gwefannau yn fyr yn ôl eu natur ac ni ellid casglu'r data hyn;

- Gofyn a fyddai modd cofnodi'r defnyddwyr hynny lle nad oedd y wybodaeth a gyflwynwyd wedi dylanwadu arnynt. Cydnabuwyd bod data yn aml yn cael eu casglu gan bobl yr oedd y wybodaeth yn cael effaith gadarnhaol arnynt. Cydnabu KL fod hwn yn faes anodd ei fesur, ond awgrymodd fod mwyafrif y defnyddwyr yn ymateb yn gadarnhaol neu'n negyddol, ac yn hyn o beth byddai cydbwysedd yn cael ei gofnodi;
- Nodi y byddai'r cynigion ar gyfer mesur effaith yn cael eu datblygu ymhellach dros amser;
- Nodi bod y gwaith wedi'i ddatblygu fel ymarfer peilot traws-sefydliadol dros gyfnod o flwyddyn a'i fod yn canolbwyntio ar y wybodaeth a'r data. Y ffocws yn y dyfodol fyddai datblygu offeryn i fesur effaith gyson ar wybodaeth a data.

Cymeradwydd y Pwyllgor y dull arfaethedig i Iechyd Cyhoeddus Cymru fonitro effaith ei waith gan ddefnyddio cyfres o gyfweiliadau ac arolygon gyda rhanddeiliaid/defnyddwyr cynnyrch, ac i fonitro a chofnodi'r effaith hon gan ddefnyddio fframwaith a system olrhain effaith.

Diolchodd y Pwyllgor i KL am y wybodaeth ddiweddaraf a gofynnodd am ddiweddariad ar gynnydd y treial ar yr adeg briodol.

Camau Gweithredu: KL/LB

KRIC 6/2023.03.08

Egwyl

KRIC 7/2023.03.08

Strategaeth Gwasanaethau Digidol a Data

KRIC 7.1/2023.03.08

Diweddariad ar y Cynnydd gyda'r Strategaeth

Darparodd IB ddiweddariad ar y Strategaeth Gwasanaethau Digidol a Data, gan nodi mai Strategaeth draws-sefydliadol sy'n seiliedig ar bobl oedd hon.

Tynnodd IB sylw at y canlynol:

- Roedd adeiladu'r seilwaith, y bensaernïaeth a'r mesurau diogelwch cywir yn hollbwysig fel sylfeini i'r rhyngwynebau defnyddwyr a ddefnyddir yn ddyddiol gan bob defnyddiwr. Roedd seiberddiogelwch hefyd yn cael ei gydnabod fel rhan hanfodol o'r system ac wedi'i ystyried ar wahân;
- Cydnabuwyd yr aliniad â Strategaeth Gwasanaethau Digidol a Data Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth â Gofal Iechyd Digidol Cymru, a fyddai'n arwain at well canlyniadau ac effeithlonrwydd;
- Cynlluniwyd adolygiad o'r seilwaith i ddatblygu gwaelodlin i wella o'r seilwaith presennol. Byddai gwaith sgrinio a wnaed eisoes yn yr Is-adran Sgrinio yn sail i strwythurau i'w datblygu o fewn rhan fawr o'r Sefydliad;
- Gwelwyd mai rhan allweddol o'r Strategaeth Data oedd y symudiad tuag at awtomeiddio a llai o fewnbynnu data. Byddai data'r Arsyllfa yn cael eu darparu mewn fformat syml a hawdd ei ddefnyddio ac o dan un brand.

Ystyriodd y Pwyllgor y canlynol:

- Y byddai'r Strategaeth yn esblygu ac yn datblygu'n gyson i ddiwallu anghenion y system. Roedd Darganfod yn arf hanfodol i'w ddefnyddio ac wedi'i ddefnyddio i drawsnewid y ffordd y mae Sgrinio Llygaid Digidol Cymru yn mabwysiadu systemau gwaith newydd;
- Rhaid i'r data hynny gynnwys data sydd eto i'w gasglu. Roedd hyn yn cynnwys canlyniadau y gwyddys eu bod yn bodoli, ond a allai fod yn gyraeddadwy mewn cyfnod byrrach nag a ragwelwyd yn wreiddiol.

Cytunodd y Pwyllgor i ystyried drafft terfynol o'r Strategaeth Gwasanaethau Digidol a Data i'w gymeradwyo i'r Bwrdd yn y cyfarfod nesaf

Camau Gweithredu: IB

KRIC 8/2023.03.08

Rheoli Risgiau

Cyflwynodd SS yr adroddiad ar Reoli Risgiau, gan amlygu'r diweddariadau a oedd yn mynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd o fewn Risg Strategol 5 a oedd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

Nododd y Pwyllgor fod sesiwn Datblygu'r Bwrdd wedi'i chynllunio i ddiweddarau'r strategaeth ar draws y Sefydliad, gyda gwaith wedi'i gynllunio yn y dyfodol i ddiweddarau'r risgiau corfforaethol.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod risg strategol y sefydliad yn cael ei rheoli'n briodol.

KRIC 9/2023.03.08

Trefniadau Llywodraethu'r Pwyllgor

KRIC 9.1/2023.03.08

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor

Fe wnaeth y Pwyllgor **ystyried** a **chymeradwyo** Adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd i'w gyflwyno i'r Bwrdd, a chytunwyd y byddai'r cynnwys, yn dilyn y cyfarfod hwn, yn cael ei gytuno gyda'r Cadeirydd cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Mai.

KRIC 9.2/2023.03.08

Cylch Gorchwyl y Pwyllgor

Fe wnaeth y Pwyllgor **ystyried** a chymeradwyo'r adolygiad o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd, a chytunodd i argymhell y fersiwn ddiwygiedig i'w chyflwyno i'r Bwrdd i'w chymeradwyo ym mis Mai.

KRIC 9.3/2023.03.08

Cynllun Gwaith y Pwyllgor

Fe wnaeth y Pwyllgor **ystyried** a **chymeradwyo** cynllun gwaith drafft y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd ar gyfer 2023-24.

KRIC 10/2023.03.08

Materion Gweinyddol i Gloi

Unrhyw fater arall: Dim.

Gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor i roi eu hadborth ar y cyfarfod drwy e-bost i Liz Blayney, gan gynnwys yr hyn a weithiodd yn dda, ac unrhyw feysydd i wella arnynt.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 13 Mehefin 2023.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:55

Heb eu Cadarnhau